OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 3764

# Rheoliadau Consesiynau Teithio Gorfodol (Trefniadau Ad-dalu) (Cymru) 2001

## Rhan III

## CEISIADAU I'R CYNULLIAD CENEDLAETHOL

**Cymhwyso rheoliadau 21 i 32**

**20.** Mae rheoliadau 21 i 32 yn gymwys i geisiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan adran 150(3) o'r Ddeddf (newid trefniadau taliadau ad-dalu arfaethedig neu amrywiadau arfaethedig i drefniadau ad-dalu).

**Cynnwys hysbysiadau**

**21.** Rhaid i hysbysiadau a gyflwynir neu a roddir o dan adran 150(4) neu (5) o'r Ddeddf gynnwys y manylion canlynol:

(i) enw a chyfeiriad gweithredydd y gwasanaeth neu'r gwasanaethau y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hwy;

(ii) enw a chyfeiriad yr awdurdod;

(iii) rhif neu enw y llwybr (os oes un) a'r rhif cofrestru a roddwyd gan gomisiynydd traffig pob gwasanaeth y mae'r hysbysiad yn ymwneud ag ef;

(iv) y ddarpariaeth yn y Ddeddf y rhoddir yr hysbysiad odani.

**Cyflwyno hysbysiadau**

**22.**—(1) Gall hysbysiadau y mae'n ofynnol eu cyflwyno neu eu rhoi o dan adran 150(4) neu (5) o'r Ddeddf gael eu traddodi â llaw neu eu hanfon drwy bost cofrestredig wedi'i dalu ymlaen llaw neu drwy ddosbarthiad cofnodedig.

(2) Bernir bod unrhyw hysbysiad a anfonir drwy'r post yn unol â pharagraff (1) o'r rheoliad hwn wedi dod i law pan ddylai gael ei ddosbarthu i'r cyfeiriad yr anfonwyd ef iddo yng nghwrs priodol y post.

**Datganiad ysgrifenedig y ceisydd**

**23.**—(1) Gyda'r hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi o dan adran 150(4) o'r Ddeddf, rhaid i'r ceisydd gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol o'r canlynol —

(a) y rhesymau dros y cais; a

(b) unrhyw resymau neu faterion eraill y mae'r person hwnnw'n credu eu bod yn berthnasol i'r cais.

(2) Ar yr un pryd ag y bydd yn cyflwyno'r hysbysiad a'r datganiad uchod i'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r ceisydd anfon copi o'r hysbysiad hwnnw ac o'r datganiad hwnnw i'r awdurdod.

**Datganiad ysgrifenedig y ceisydd**

**24.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 30, rhaid i'r awdurdod gyflwyno datganiad ysgrifenedig i'r Cynulliad Cenedlaethol o unrhyw faterion y mae'n credu eu bod yn berthnasol i'r cais.

(2) Ar yr un pryd ag y mae'n cyflwyno'r datganiad i'r Cynulliad Cenedlaethol, rhaid i'r awdurdod anfon copi ohono at y ceisydd.

(3) Oni bai bod y Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu fel arall, rhaid i unrhyw ddatganiad o'r fath gael ei gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol a'i anfon at y ceisydd o fewn 28 diwrnod o ddyddiad yr hysbysiad y mae'r ceisydd yn ei roi i'r Cynulliad Cenedlaethol.

(4) Rhaid i'r Cynulliad Cenedlaethol roi gwybod i'r ceisydd ar unwaith os yw'n caniatáu cyfnod hirach i'r awdurdod gyflwyno'i ddatganiad.

**Datganiadau ysgrifenedig a dogfennau pellach**

**25.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 30, ar ôl i'r awdurdod gyflwyno'u datganiad, caiff y Cynulliad Cenedlaethol ofyn i'r ceisydd neu'r awdurdod, neu'r ddau, gyflwyno unrhyw ddatganiadau ysgrifenedig a dogfennau pellach iddo fel y bydd yn cyfarwyddo.

(2) Rhaid i unrhyw ddatganiadau a dogfennau pellach o'r fath gael eu cyflwyno o fewn unrhyw amser y bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfarwyddo, ond, oni bai bod y ceisydd a'r awdurdod yn cytuno fel arall, rhaid i'r amser hwnnw beidio â bod yn llai na 14 diwrnod yn dechrau â dyddiad cais y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid i'r ceisydd neu'r awdurdod (yn ôl fel y digwydd) sy'n cyflwyno unrhyw ddatganiad neu ddogfen bellach i'r Cynulliad Cenedlaethol anfon copi ar yr un pryd i'r awdurdod neu at y ceisydd (fel y bo'n briodol).

**Gwrandawiadau ac ymddangosiadau**

**26.**—(1) Ar ôl i'r datganiad ysgrifenedig neu'r ddogfen olaf y mae eu hangen o dan reoliadau 23 i 25 gael eu cyflwyno, caiff y Cynulliad Cenedlaethol wahodd y ceisydd a'r awdurdod i ymddangos gerbron person a benodir ganddo.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol wedi penodi person yn unol â rheoliad 32 i benderfynu ar y cais ar ei ran, y person hwnnw fydd y person y gwahoddir y ceisydd a'r awdurdod i ymddangos ger ei fron.

(3) Rhaid i'r gwrandawiad yn unol â gwahoddiad gan y Cynulliad Cenedlaethol o dan y rheoliad hwn gael ei gynnal heb fod yn llai na 14 diwrnod ar ôl dyddiad y gwahoddiad hwnnw (neu, os rhoddir gwahoddiadau ar ddyddiadau gwahanol, ar ôl dyddiad yr ail wahoddiad neu'r gwahoddiad olaf).

(4) Caiff y ceisydd ymddangos yn bersonol neu gael ei gynrychioli gan gwnsler, cyfreithiwr neu unrhyw berson arall.

(5) Caiff yr awdurdod ymddangos drwy gyfrwng unrhyw swyddog neu berson arall sydd wedi'i benodi at y diben, neu drwy gyfrwng cwnsler, neu gyfreithiwr.

**Methiannau wth gyflwyno datganiadau neu ddogfennau neu wrth ymddangos**

**27.** Os yw'r ceisydd neu'r awdurdod yn methu —

(a) â thraddodi unrhyw ddatganiad neu ddogfennau o fewn yr amser a bennir yn y Rheoliadau hyn neu a gyfarwyddir gan y Cynulliad Cenedlaethol; neu

(b) ag ymddangos gerbron person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn ymateb i wahoddiad gan y Cynulliad Cenedlaethol;

er hynny caiff y Cynulliad Cenedlaethol fwrw ymlaen i benderfynu ar y cais.

**Y weithdrefn mewn gwrandawiadau**

**28.**—(1) Yn ddarostyngedig i reoliad 27, mewn unrhyw wrandawiad rhaid i'r person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol roi cyfle i'r ceisydd a'r awdurdod —

(a) annerch y person a benodir ac ymhelaethu ar y datganiad ysgrifenedig a gyflwynwyd o dan y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn, rhoi tystiolaeth, galw tystion, a holi unrhyw berson sy'n rhoi tystiolaeth gerbron y person a benodir; a

(b) cyflwyno sylwadau ar y dystiolaeth (os oes tystiolaeth) ac ar bwnc y cais yn gyffredinol ond, os caiff tystiolaeth ei chymryd, rhaid peidio â rhoi'r cyfle hwnnw cyn gorffen cymryd y dystiolaeth.

(2) Caiff y Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw berson a benodir ganddo i gynnal gwrandawiad o dan y rheoliad hwn gymryd yn dystiolaeth unrhyw ddogfen neu wybodaeth er na fyddai'r ddogfen neu'r wybodaeth honno yn dderbyniol mewn llys barn.

(3) Ac eithrio fel y darperir fel arall yn y Rhan hon o'r Rheoliadau hyn, bydd y weithdrefn mewn unrhyw wrandawiad yn cyd-fynd â'r hyn y bydd y person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ei bennu yn ôl disgresiwn y person hwnnw.

**Dyfarniadau gan y Cynulliad Cenedlaethol**

**29.**—(1) Ar ôl ystyried adroddiad y person, os oes un, a benodir ganddo yn unol â rheoliad 26(1), bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn penderfynu ar y cais a chofnodir ei benderfyniad mewn dogfen a lofnodir ar ran y Cynulliad Cenedlaethol a'i dyddio pan gaiff ei llofnodi.

(2) Rhaid i'r ddogfen honno gynnwys crynodeb o'r rhesymau dros benderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol.

(3) Rhaid anfon copi o'r ddogfen sy'n cofnodi penderfyniad y Cynulliad Cenedlaethol at y ceisydd ac i'r awdurdod.

(4) Trinnir y penderfyniad fel pe bai wedi'i wneud ar y dyddiad yr anfonir y copi o'r ddogfen uchod at y ceisydd.

**Cyfyngu ar ddefnyddio gwybodaeth mewn cysylltiad â gwrandawiadau**

**30.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i wybodaeth sy'n ymwneud ag ad-dalu i weithredydd perthnasol y mae awdurdod yn ei chael oddi wrth y gweithredydd hwnnw yn unol â threfniadau ad-dalu.

(2) Yn y rheoliad hwn ystyr "gweithredydd perthnasol" yw gweithredydd gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus y ceir hawl arnynt i gael consesiynau teithio gorfodol.

(3) Er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth yn rheoliadau 24 i 28, rhaid i unrhyw ddatganiad neu ddogfen a gyflwynir neu a anfonir gan awdurdod, ac unrhyw ddatganiad a wneir ar ran awdurdod sy'n ymddangos gerbron person a benodir gan y Cynulliad Cenedlaethol, beidio â chynnwys dim gwybodaeth y mae'r rheoliad hwn yn gymwys iddi oni bai bod y gweithredydd perthnasol wedi rhoi ei gydsyniad ysgrifenedig iddi gael ei chynnwys.

**Ceisiadau gwacsaw neu flinderus**

**31.** Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn barnu bod cais yn un gwacsaw neu flinderus, gall y Cynulliad Cenedlaethol, ar ôl rhoi cyfle i'r ceisydd wneud sylwadau ysgrifenedig, wrthod y cais yn ddioed a bydd darpariaethau rheoliad 29 yn gymwys i benderfyniad felly.

**Cymhwyso rheoliadau 23 i 25, 27 i 29 a 31 at enwebai'r Cynulliad Cendlaethol**

**32.**—(1) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penodi person yn unol ag adran 150(6)(b) o'r Ddeddf i benderfynu ar gais ar ei ran, rhaid iddo roi hysbysiad ysgrifenedig o'r penodiad i'r ceisydd ac i'r awdurdod.

(2) Os yw'r Cynulliad Cenedlaethol yn penodi person i benderfynu ar gais ar ei ran, rhaid darllen cyfeiriadau yn rheoliadau 23 i 25 a rheoliadau 27 i 29 at y Cynulliad Cenedlaethol fel cyfeiriadau at y person a benodir felly o ddyddiad y penodi ymlaen.